

Archwilydd Cyffredinol Cymru  
Auditor General for Wales



WALES AUDIT OFFICE  
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Gwasanaethau Nyrsio Ardal yng Nghymru - Rhestr wirio i Aelodau Byrddau



# Cyflwyniad

Ers degawd a mwy, mae polisi Llywodraeth Cymru wedi canolbwyntio ar symud gwasanaethau ac adnoddau tuag at ofal sylfaenol a gofal cymunedol fel bod mwy o bobl yn cael gofal yn nes at adref. Mae sefydliadau'r GIG wedi ymateb drwy gyflwyno gwasanaethau a thimau cymunedol newydd, megis timau adnoddau cymunedol a thimau ymateb cyflym, ochr yn ochr â gwasanaethau nyrsio ardal.

Mae staff nyrsio ardal yn chwarae rhan hollbwysig yn y tîm gofal iechyd sylfaenol a chymunedol, ac yn fwyfwy'n darparu elfen gyffredinol graidd y gofal nyrsio cymunedol i oedolion. Mae staff nyrsio ardal yn darparu gofal, cyngor a chefnogaeth nyrsio fedrus i gleifion a'u teuluoedd 24 awr y dydd, saith diwrnod yr wythnos. Maent hefyd yn defnyddio'u barn i benderfynu sut a phryd y dylid cynnwys gweithwyr proffesiynol eraill er mwyn darparu gofal, ac yn trefnu hynny er mwyn diwallu anghenion cleifion. Mae'r gofal hwn yn cefnogi cleifion a'u teuluoedd i allu cadw rheolaeth ar eu hiechyd, i osgoi derbyn cleifion yn ddiangen i'r ysbyty, er mwyn galluogi rhyddhau cleifion o'r ysbyty yn gynnar ac i gynnal annibyniaeth cyhyd â phosibl.

Mae'r twf yn y boblogaeth oedrannus, ynghyd ag arosiadau byrrach mewn ysbytai a'r symud tuag at drin mwy o gleifion yn y gymuned – a'r rheini yn aml ag anghenion gofal cymhleth a lluosog – yn golygu bod gofyn cael gweithlu sydd wedi'i gydlynw'n briodol, sydd â'r adnoddau a'r sgiliau priodol ac sy'n cael ei ddefnyddio'n effeithiol ar gyfer y gwasanaeth nyrsio ardal.

Yn ystod 2014, cynhaliodd yr Archwilydd Cyffredinol adolygiadau o wasanaethau nyrsio ardal ledled Cymru. Cafodd pob bwrdd iechyd lleol adroddiad manwl ar y canfyddiadau yn lleol, yn ogystal ag argymhellion ar gyfer gwelliannau, a dylai'r byrddau iechyd fod wedi mynd ati i fynd i'r afael â'r rheini.

Yn ystod y cyfnod ers inni gyhoeddi ein hadroddiadau, yr ydym yn ymwybodol fod cynnydd wedi'i wneud mewn nifer o ardaloedd. Yr ydym hefyd yn ymwybodol o ffocws cynyddol ar, a symud tuag at, wasanaethau cymunedol integredig, sydd yn cwmpasu'r gwasanaeth nyrsio ardal mewn rhai ardaloedd. Mae'n bwysig bod gan fyrddau iechyd sicrwydd bod yr adnoddau nyrsio ardal, sy'n cynrychioli cyfran sylweddol o'r gweithlu nyrsio cymunedol, yn cael eu defnyddio yn y ffordd fwyaf effeithiol fel rhan o'r dull o fynd ati i ddarparu gwasanaethau cymunedol.

Er mwyn cynorthwyo yn hyn o beth rydym wedi paratoi rhestr wirio er mwyn cefnogi aelodau byrddau GIG i geisio sicrwydd ynghylch sut mae adnoddau nyrsio ardal lleol yn cael eu rheoli, a'r cynnydd sydd wedi'i wneud i fynd i'r afael ag argymhellion ein harchwiliad lleol.

# Sicrhau eglurder ynghylch rôl y gwasanaeth nyrsio ardal

Bu inni ganfod bod gan y byrddau iechyd weledigaeth glir ar gyfer darparu mwy o ofal yn y gymuned, ond mai dim ond ychydig ohonynt oedd â strategaeth neu gynllun clir i ddangos sut y byddai'r gwasanaeth nyrsio ardal, fel rhan o ddarpariaeth ehangach o wasanaethau cymunedol, yn cefnogi'r weledigaeth hon.

## A yw'r Bwrdd Iechyd wedi datgan ei weledigaeth ar gyfer y gwasanaeth nyrsio ardal o fewn y ddarpariaeth ehangach o wasanaethau nyrsio cymunedol?

A yw'r Bwrdd Iechyd wedi egluro rôl a chyfrifoldebau'r gwasanaeth nyrsio ardal o fewn y ddarpariaeth ehangach o wasanaethau nyrsio cymunedol?

A oes gan y Bwrdd Iechyd strategaeth neu gynllun sydd wedi'i ddogfennu ac sy'n dangos sut mae'r gwasanaeth nyrsio ardal yn cyd-fynd â'r gwasanaethau cymunedol ehangach er mwyn helpu i ddarparu mwy o ofal yn y gymuned?



Fel arfer bydd rôl a diben gwasanaethau nyrsio ardal yn cael eu disgrifio ym manyleb y gwasanaeth, gan amlinellu'r mathau o ofal a ddarperir, sut mae'r gwasanaeth yn cael ei drefnu a'i gydlynu, y meini prawf cymhwysedd a'r broses atgyfeirio, yn ogystal â'r trefniadau ar gyfer rhyddhau cleifion o'r gwasanaeth.


Ar yr adeg pan gynhaliwyd ein harchwiliad, er bod y byrddau iechyd wedi manylu ynghylch eu gwasanaethau mewn dogfen, roedd y dogfennau hynny, i raddau helaeth, wedi dyddio a heb gael eu hyrwyddo'n eang na'u rhannu â'r rhanddeiliaid allweddol a allai gyfeirio cleifion at y gwasanaeth.

## A yw'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud digon i sicrhau bod y rhanddeiliaid allweddol yn deall rôl y gwasanaeth nyrsio ardal o fewn y ddarpariaeth ehangach o wasanaethau cymunedol?

A geir canllawiau lleol sy'n mynegi'n glir rôl a diben y gwasanaeth nyrsio ardal o fewn y gwasanaethau cymunedol ehangach?

A yw'r canllawiau'n esbonio'n glir y meini prawf cymhwysedd a'r broses atgyfeirio?

A yw'r canllawiau hyn wedi cael eu rhannu a'u trafod ag atgyfeirwyr a rhanddeiliaid sydd â buddiant, gan gynnwys cleifion?



# Rheoli'r galw am wasanaethau nyrsio ardal

Atgyfeiriadau, boed yn ysgrifenedig neu'n llafar, yw'r prif ddull o ganfod anghenion cleifion o ran gofal nyrsio ardal. Mae angen i'r broses fod yn effeithlon ac yn effeithiol, ac mae angen i'r rhai sy'n atgyfeirio i'r gwasanaeth ddeall rôl y gwasanaeth a'r hyn y gellir ei ddarparu.

Ar yr adeg pan gynhaliwyd ein harchwiliad, roedd meini prawf atgyfeirio yn bodoli, ond nid oedd y rhain yn cael eu defnyddio mewn modd cyson, neu roeddent wedi dyddio. Dim ond ychydig o'r byrddau iechyd oedd yn defnyddio ffurflenni atgyfeirio yn rheolaidd, ac os oeddent yn cael eu defnyddio, nid oeddent yn cael eu defnyddio'n gyson bob amser, gan olygu bod gwybodaeth bwysig am y claf ar goll weithiau. Gall methu darparu gwybodaeth berthnasol arwain at ymweliadau ofer neu aneffeithiol ac oedi o ran gofal, a gall gyfyngu ar y gallu i reoli a monitro'r galw. Ar yr adeg pan gynhaliwyd ein harchwiliad, roedd y wybodaeth ynglŷn â'r galw am wasanaethau nyrsio ardal yn gyfyngedig, ac nid oedd y rhan fwyaf o'r byrddau iechyd yn monitro nifer yr atgyfeiriadau a'r rhesymau drostynt, na phriodoldeb yr atgyfeiriadau, yn rheolaidd.

## A yw'r Bwrdd Iechyd yn rheoli'r galw am wasanaethau nyrsio ardal yn effeithiol?

A ddefnyddir ffurflenni atgyfeirio wedi'u safoni i gasglu'r wybodaeth gywir am y claf er mwyn darparu gofal diogel ac effeithiol yn ystod yr ymweliad cyntaf?

A yw'r gydymffurfiaeth â meini prawf atgyfeirio neu briodoldeb atgyfeiriadau yn cael eu harchwilio'n rheolaidd, gan adrodd yn ôl ar hynny i'r rhanddeiliaid perthnasol?

A ddatblygwyd dulliau amgen i helpu i reoli'r galw?



# Rheoli llwyth achosion y gwasanaeth nyrsio ardal

Mae Sefydliad Nyrsio'r Frenhines (QNI) yn diffinio llwyth achosion fel y cleifion sy'n cael gofal gan y gwasanaeth nyrsio ardal a'r holl weithgareddau y mae hyn yn eu cynnwys.<sup>1</sup> Gall y llwyth achosion amrywio o ran maint a chymhlethdod gan ddbynnu ar anghenion cleifion penodol ar unrhyw adeg benodol, proffil demograffig y boblogaeth a wasanaethir a ffactorau eraill megis dosbarthiad daearyddol y cleifion. Ffactor pwysig arall yw i ba raddau y mae cleifion yn cael cefnogaeth gan deulu a ffrindiau a gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol eraill.

Un sylw o eiddo Sefydliad Nyrsio'r Frenhines oedd bod gwasanaethau nyrsio ardal yn aml yn cael eu disgrifio fel rhai sy'n gweithredu fel sbwng, gan ei bod yn rhwyddach i'r gwasanaeth amsugno llwyth gwaith ychwanegol oherwydd nad yw'n cael ei gyfyngu gan nifer benodol o welyau. Canfu ein hadolygiad mai dim ond ychydig iawn o lwythi achosion oedd yn cael eu cau a'u bod, yn hytrach, yn cael eu hymestyn er mwyn amsugno cleifion newydd. Nid oedd llawer o lwythi achosion yn cael eu hadolygu'n rheolaidd er mwyn asesu a ellid rhyddhau cleifion yn ddiogel o'r llwyth achosion neu a allai eu gofal gael ei ddarparu gan weithwyr proffesiynol eraill. Bu inni ganfod hefyd nad oedd gan yr holl fyrddau iechyd drefniadau uwchraddio ar waith er mwyn rheoli pwysau cynyddol ar y gwasanaeth.

## A yw llwythi achosion yn cael eu rheoli'n effeithiol?

A yw llwythi achosion yn cael eu hadolygu yn systematig ac yn rheolaidd?

A yw cleifion yn cael eu rhyddhau o'r llwyth achosion a'u cyfeirio at wasanaethau iechyd neu wasanaethau gofal eraill yn y gymuned?

A gytunwyd ar y trothwy pan fydd llwythi achosion yn cael eu cau i atgyfeiriadau newydd neu weithdrefnau uwchraddio, pan fydd pryderon o bosibl ynglŷn ag ansawdd a diogelwch y gofal y gellir ei ddarparu?



1 Sefydliad Nyrsio'r Frenhines, Understanding safe caseloads in the District Nursing service, Medi 2016

# Sicrhau'r gweithlu cywir

Mae timau nyrsio ardal yn cynnwys o leiaf un uwch-nyrs gofrestredig gyda Chymhwyster Ymarferydd Arbenigol (SPQ) mewn nyrsio ardal. Canfu ein harchwiliad fod cyfran y staff sy'n meddu ar Gymhwyster Ymarferydd Arbenigol (SPQ) yn amrywio o fewn a rhwng byrddau iechyd, ac mai dim ond chwarter y staff a oedd yn meddu ar SPQ. Mae cynigion cyllideb Llywodraeth Cymru<sup>2</sup> yn awgrymu y bydd 80 o leoedd hyfforddi ar gyfer nyrsys ardal ar gael y flwyddyn nesaf, sef dwywaith nifer y lleoedd a gomisiynwyd yn flaenorol.

Mae'r uwch-nyrs a elwir yn Nyrs Ardal, yn arwain ac yn rheoli tîm o nyrsys cofrestredig a gweithwyr cymorth gofal iechyd. Canfu ein harchwiliad fod lefelau staffio'r nyrsys ardal yn rhai hanesyddol, i raddau helaeth, gyda newidiadau ad hoc i'r cyfuniad o sgiliau o fewn timau lleol. Dangosodd y data a ddarparwyd gan y byrddau iechyd adeg ein harchwiliad gynnydd bach yng nghyfanswm gweithlu'r nyrsys ardal ers 2011. Ond er bod niferoedd y staff nyrsio cofrestredig a'r gweithwyr cymorth gofal iechyd yn cynyddu, roedd niferoedd y Nyrsys Ardal yn gostwng.

Gan mai dyma'r grŵp mwyaf o staff cymunedol a'r darparwr gofal cymunedol mwyaf i oedolion, mae'n bwysig fod gwybodaeth ac offer da ar gael i lywio gwaith cynllunio gweithlu a darparu gwasanaeth y gwasanaeth nyrsio ardal. Mae [Deddf Lefelau Staff Nyrsio \(Cymru\) 2016](#) yn egluro bod gan fyrddau iechyd y ddyletswydd ganlynol: 'a duty to have regard to providing sufficient nurses to allow them time to care for patients sensitively'.

Dylid defnyddio amrywiaeth o ddulliau er mwyn penderfynu ar niferoedd y staff a'r sgiliau sy'n ofynnol er mwyn bodloni anghenion boblogaeth leol mewn modd diogel ac effeithlon. Mae'r rhain yn cynnwys meincnodi yn erbyn canllawiau staffio a dangosyddion ansawdd cenedlaethol y cytunwyd arnynt, a chrebwyll proffesiynol. Ar yr adeg pan gynhaliwyd ein harchwiliad, nid oedd unrhyw ganllawiau ar lefelau staffio diogel yn y gymuned nac unrhyw offer wedi'u safoni er mwyn asesu llwyth gwaith neu ddibyniaeth cleifion. Golygai hyn mai ychydig iawn o ddealltwriaeth a geid oddi allan i dimau unigol ynghylch niferoedd y cleifion yn y llwyth achosion ac anghenion y cleifion hynny. Mae Sefydliad Nyrsio'r Frenhines yn ffafrio'r term 'llwythi gwaith diogel' yn hytrach na 'staffio diogel', am fod hynny'n rhoi adlewyrchiad gwell o gymhlethdod y broses o benderfynu ar nifer y staff a'r cyfuniad o sgiliau yn y gymuned.

2 [Llywodraeth Cymru, 2017, Cyllideb Ddrafft 2018-19, Cynigion amlinellol, Cyllideb newydd i Gymru](#)

Canfu ein harchwiliad hefyd fod ychydig dros hanner y staff nyrsio ardal yn Mae GIG Cymru wedi bod yn gweithio ers peth amser ar offeryn cyfrifo llwyth gwaith a gweithlu ar gyfer y gwasanaeth nyrsio ardal. Bu hyn yn gymhleth gan fod angen iddo ystyried aciwtedd a dibyniaeth cleifion yn ogystal ag ansawdd. Mae Llywodraeth Cymru wedi awgrymu na fydd offeryn cadarn sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar gael am beth amser. Yn y cyfamser, mae wedi cyhoeddi [Egwyddorion Arweiniol Interim ar gyfer Staffio Gwasanaethau Nyrsys Ardal](#) er mwyn sicrhau bod dull cyson yn cael ei ddefnyddio ar gyfer cynllunio gweithlu'r gwasanaeth nyrsio ardal.

Canfu ein harchwiliad hefyd fod ychydig dros hanner y staff nyrsio ardal yn gweithio mwy na'r oriau yn eu contract. Bu i'r staff hyn, ar gyfartaledd, weithio tair awr ychwanegol yn ystod wythnos yr archwiliad. Mae hyn yn awgrymu diffyg cydweddu rhwng y llwyth gwaith a'r gweithlu.

**A yw'r Bwrdd Iechyd yn gwybod pa adnoddau nyrsio y mae arno eu hangen er mwyn darparu gofal diogel, prydlon ac effeithiol yn y gymuned?**



A yw'r Bwrdd Iechyd wedi cymharu cyfansoddiad cyfredol y timau nyrsio ardal â'r egwyddorion arweiniol interim, o ran niferoedd y staff, cyfuniad y sgiliau, a Chymhwyster Ymarferydd Arbenigol?

A yw'r Bwrdd Iechyd yn gwybod sawl aelod o staff y gwasanaeth nyrsio ardal sy'n meddu ar SPQ, neu sy'n gweithio tuag at ennill y cymhwyster?

A yw'r Bwrdd Iechyd yn gwneud yn siŵr bod cynifer o leoedd hyfforddi nyrsys ardal â phosib yn cael eu comisiynu gan Lywodraeth Cymru?

A yw'r Bwrdd Iechyd wedi trefnu timau nyrsys ardal i sicrhau eu bod yn cyd-fynd â ffiniau dalgylchoedd y clystyrau gofal sylfaenol?<sup>3</sup>

A yw'r Bwrdd Iechyd yn monitro oriau gwaith ychwanegol ac yn mynd i'r afael â'r achosion?

3 Mae byrddau iechyd wedi datblygu trefniadau ar gyfer grwpiau bach o bractisau meddygon teulu cyfagos i weithio gyda'i gilydd i ddatblygu gwasanaethau yn y gymuned, gan wasanaethu poblogaethau o rhwng 30 a 50 mil o gleifion. Mae 64 o'r clystyrau gofal sylfaenol hyn ledled Cymru.



# Deall sut mae staff nyrsio ardal yn treulio eu hamser

Mae angen i fyrddau iechyd sicrhau eu bod yn gwneud y defnydd gorau o'r gwasanaeth nyrsio ardal. Mae adolygu prosesau gwaith yn rheolaidd ar lefel leol ac ar lefel timau yna gwella dealltwriaeth o hyn. Ar yr adeg pan gynhaliwyd ein harchwiliad bu inni ganfod amrywiaeth anesboniadwy yn y modd yr oedd timau nyrsio ardal yn treulio eu hamser. Roedd staff y gwasanaeth nyrsio ardal wedi'u dosbarthu'n anghyfartal ledled y llwythi achosion.

Dim ond ychydig o'r byrddau iechyd oedd wedi cytuno ar drothwyon ar gyfer faint o amser y dylai staff nyrsio ardal ei dreulio ar ofal cleifion a gofal nad yw'n ymwneud â chleifion. Ledled Cymru, roedd staff nyrsio ardal yn treulio llai na hanner eu hamser ar ofal uniongyrchol i gleifion<sup>4</sup> ond roedd amrywiaeth eang rhwng graddau staff o fewn a rhwng timau a byrddau iechyd. Roedd gwahaniaethau mawr hefyd yn yr amser a dreulid ar weithgareddau nad oeddent yn ymwneud â chleifion.

Dim ond ychydig o'r timau oedd â chefnogaeth weinyddol a chlerigol, a gallai hyn egluro cyfran uchel yr amser yr oedd rhai gweithwyr cymorth gofal iechyd yn ei dreulio ar weinyddu. Bu inni ganfod hefyd amrywiaeth o fewn a rhwng byrddau iechyd o ran dirprwyo dyletswyddau rhwng gweithwyr cymorth gofal iechyd. Mewn rhai byrddau iechyd, roedd gweithwyr cymorth gofal iechyd wedi cael hyfforddiant ychwanegol yn seiliedig ar gymwyseddau er mwyn darparu gofal mwy technegol, megis monitro lefel glwcos yn y gwaed. Mae hyn yn awgrymu y gall fod lle i weithwyr cymorth gofal iechyd wneud cyfran fwy o dasgau rheolaidd.

## A yw staff nyrsio ardal yn cael eu defnyddio'n effeithiol?


A yw'r staff yn gwneud y pethau cywir yn y man cywir ar yr adeg gywir?

A yw'r Bwrdd Iechyd wedi pennu faint o amser y dylai timau ei dreulio ar ofal uniongyrchol i gleifion?

A yw'r Bwrdd Iechyd yn monitro sut mae staff nyrsio ardal yn treulio eu hamser er mwyn cadw unrhyw amrywiaeth ddiangen cyn ised â phosibl?

A yw'r Bwrdd Iechyd yn gwybod beth sy'n atal staff rhag treulio mwy o amser â chleifion?

A oes cynlluniau ar waith i sicrhau bod timau nyrsys ardal yn gallu cael gafael ar o leiaf 15 awr o gymorth gweinyddol bob wythnos, yn unol ag egwyddorion staffio?



4 Gofal uniongyrchol i gleifion yw cyswllt wyneb yn wyneb neu ar y ffôn â chlaf neu ei ofalwr; gweithgarwch gofal cleifion anuniongyrchol megis cyswllt ag asiantaethau eraill, teithio i gartrefi cleifion ac oddi yno; gofal nad yw'n ymwneud â chleifion yw'r holl weithgarwch arall, megis gwaith rheoli tîm, dysgu ac addysgu, gwaith papur anghlinigol a gweinyddu neu reoli proffesiynol a chlinigol.



# Deall ansawdd a diogelwch y gwasanaeth nyrsio ardal

Swydd ar ei phen ei hun yw nyrsio ardal yn bennaf - un nyrs yn gweithio gydag un claf. Mae'n bwysig bod byrddau iechyd yn monitro ac yn adrodd ar ansawdd a diogelwch y gwasanaeth yn rheolaidd, gan gynnwys profiad cleifion a chanlyniadau. Ar yr adeg pan gynhaliwyd ein harchwiliad, nid oedd y rhan fwyaf o'r byrddau iechyd yn mesur, monitro nac adrodd ar berfformiad y gwasanaeth nyrsio ardal. Roedd y mecanweithiau ar gyfer cywain ac adrodd ar brofiad cleifion a chanlyniadau cleifion yn gyfyngedig. O ystyried y cyfeiriad o ran polisi ac ymrwymiad GIG Cymru i symud mwy o ofal i'r gymuned, roedd yna ddiffyg ymwybyddiaeth ar lefel y Byrddau o'r gwasanaeth nyrsio ardal.

## A yw'r Bwrdd Iechyd yn gwybod sut mae'r gwasanaeth nyrsio ardal yn perfformio?

A yw'r Bwrdd Iechyd wedi cytuno ar ba wybodaeth sydd arno ei hangen i reoli'r gwasanaeth nyrsio ardal?

A yw'r Bwrdd Iechyd yn gwybod beth yw barn y cleifion am y gwasanaeth nyrsio ardal?

A yw'r Bwrdd Iechyd yn casglu ystod o fesurau, gan gynnwys ansawdd, diogelwch a chanlyniadau cleifion, ac yn adrodd arnynt er mwyn rhoi darlun cyflawn o'r gwasanaeth nyrsio ardal?

A yw'r Bwrdd a'i Bwyllgorau yn gwybod digon am berfformiad y gwasanaeth nyrsio ardal?




# Gwybodaeth a systemau gwybodaeth

Mae gwybodaeth yn holl bwysig er mwyn cynllunio a darparu gwasanaethau effeithiol, yn ogystal â monitro perfformiad, canlyniadau cleifion, ac ansawdd a diogelwch y gwasanaethau a ddarperir. Ar yr adeg pan gynhaliwyd ein harchwiliad, dim ond un bwrdd iechyd oedd yn defnyddio un system electronig ar gyfer cofnodion cleifion ledled ei wasanaethau cymunedol, tra bod eraill yn dibynnu i raddau helaeth ar systemau papur. Mae diffyg system electronig yn cael effaith negyddol ar effeithlonrwydd y gwasanaeth nyrsio ardal o ran monitro ac adrodd ar y galw am wasanaethau, yn ogystal â monitro ac adrodd ar ofal cleifion a chanlyniadau. Mae diffyg system electronig integredig hefyd yn llesteirio gallu gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol i rannu gwybodaeth berthnasol yn rhwydd am yr un defnyddwyr gwasanaeth.

Mae System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru (WCCIS) yn cael ei chyflwyno yng Nghymru er mwyn rhoi i nyrsys cymunedol, timau iechyd meddwl, gweithwyr cymdeithasol a therapyddion yr offer digidol y mae arnynt eu hangen er mwyn gweithio gyda'i gilydd yn fwy effeithiol. Bydd yn caniatáu mynediad i wybodaeth berthnasol am y gofal a ddarperir gan weithwyr proffesiynol eraill, er mwyn dangos ble mae claf arni gyda'i driniaeth. Does dim disgwyl i'r holl fyrdau iechyd weithredu'r WCCIS yn llawn tan 2019.

## A oes gan y Bwrdd Iechyd systemau gwybodaeth effeithiol ar waith?



A yw'r Bwrdd Iechyd wedi rhoi systemau ar waith i gael gwybodaeth am reoli'r gwasanaeth nyrsio ardal?

A yw'r Bwrdd Iechyd yn paratoi ar gyfer cyflwyno'r WCCIS drwy wneud y canlynol, er enghraifft:

- nodi arweinydd clinigol i gefnogi'r gwaith o gyflwyno'r system;
- nodi'r adnoddau sydd eu hangen i gefnogi'r gwaith o gyflwyno'r system;
- alinio dogfennau a phrosesau ar gyfer y system; a
- chwilio am wersi sydd wedi'u dysgu wrth gyflwyno'r system mewn ardaloedd eraill?



Wales Audit Office  
24 Cathedral Road  
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500

Fax: 029 2032 0600

Textphone: 029 2032 0660

We welcome telephone calls in  
Welsh and English.

E-mail: [info@audit.wales](mailto:info@audit.wales)

Website: [www.audit.wales](http://www.audit.wales)

Swyddfa Archwilio Cymru  
24 Heol y Gadeirlan  
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn Testun: 029 2032 0660

Rydym yn croesawu galwadau  
ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

E-bost: [post@archwilio.cymru](mailto:post@archwilio.cymru)

Gwefan: [www.archwilio.cymru](http://www.archwilio.cymru)